

Mwy nag ailgylchu: gwneud yr economi gylchol yng Nghymru yn realiti

Ysgogi gweithredu nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

7: Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang

Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.

Gall y strategaeth helpu i gyflawni hyn drwy: Ysgwyddo cyfrifoldeb llawn am ein gwastraff fel nad yw'n datblygu'n broblem yn rhywle arall. Llywio'r cynnydd tuag at amcan defnyddio adnoddau un blaned Llywodraeth Cymru. Lleihau'r camfanteisio ar adnoddau naturiol y byd, gan gynnwys dŵr a metalau mewn gwledydd eraill. Dod yn batrwm o ran ailgylchu ac ymateb i'r argyfwng hinsawdd byd-eang.

- Camau Gweithredu Allweddol:**
- Arwain y byd o ran ailgylchu
 - Ysgwyddo cyfrifoldeb llawn am ein gwastraff
 - Gwneud defnydd mwy effeithlon o'n bwyd

1: Cymru Lewyrchus

Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.

Gall y strategaeth helpu i gyflawni hyn drwy: Defnyddio adnoddau'n effeithlon a galluogi'r broses bontio i economi gylchol, carbon isel, arloesol. Creu cyfleoedd ar gyfer swyddi, sgiliau a datblygu cymwysterau yr economi gylchol. Darparu cyflenwad mwy cylchol a dibynadwy o ddeunyddiau fforddiadwy ar gyfer busnesau. Ymateb i'r argyfwng hinsawdd drwy leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig â chreu cynnyrch.

- Camau Gweithredu sy'n cyfrannu:**
- Creu'r amodau i fusnesau achub ar y cyfleoedd
 - Galluogi cymunedau i weithredu ar y cyd
 - Arwain y byd o ran ailgylchu

6: Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.

Gall y strategaeth helpu i gyflawni hyn drwy: Twf pellach o ran ailgylchu sydd wedi datblygu'n rhan o'n diwylliant. Cefnogi mentrau megis caffis atgyweirio sy'n dod â chymunedau at ei gilydd ac yn annog pobl i gymryd rhan drwy gyfrwng eu hiaith ddewisol.

- Camau Gweithredu sy'n cyfrannu:**
- Galluogi cymunedau i weithredu ar y cyd

2: Cymru Gydnherth

Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnherthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid.

Gall y strategaeth helpu i gyflawni hyn drwy: Lleihau'r defnydd a wneir o gynnyrch a'r deunyddiau crai sy'n gysylltiedig â'u gwneud, gan felly leihau'r niwed i ecosystemau a llygredd, mynd i'r afael â'r mater allweddol sy'n effeithio ar fioamrywiaeth, a lleihau camdefnyddio adnoddau naturiol mewn ffordd anghynaliadwy.

- Camau Gweithredu sy'n cyfrannu:**
- Cael gwared ar blastig untro yn raddol
 - Blaenoriaethu prynu pren a chynnyrch sydd wedi'i ailweithgynhyrchu a'i ailgylchu



5: Cymru o Gymunedau Cydlynus

Gymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.

Gall y strategaeth helpu i gyflawni hyn drwy: Cadw ein harfordiroedd, ardaloedd trefol a chefn gwlad yn atyniadol drwy leihau maint y sbwriel. Ymgysylltu a chysylltu â chymunedau drwy ddatblygu ymhellach mentrau cymunedol cylchol sy'n defnyddio adnoddau'n effeithlon megis: 'the library of things', caffis atgyweirio, a grwpiau aiddosbarthu bwyd sydd dros ben.

- Camau Gweithredu sy'n cyfrannu:**
- Galluogi cymunedau i weithredu ar y cyd
 - Cael gwared ar blastig untro yn raddol
 - Gwneud defnydd mwy effeithlon o'n bwyd

4: Cymru sy'n fwy Cyfartal

Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau.

Gall y strategaeth helpu i gyflawni hyn drwy: Creu cyfleoedd hyfforddiant a swyddi i bawb. Creu cyfleoedd i gymunedau ddatblygu sgiliau drwy fentrau megis caffis atgyweirio. Sicrhau gwasanaethau rheoli gwastraff unfurf i bawb.

- Camau Gweithredu sy'n cyfrannu:**
- Ysgwyddo cyfrifoldeb llawn am ein gwastraff
 - Galluogi cymunedau i weithredu ar y cyd

3: Cymru Iachach

Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deallir deusiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.

Gall y strategaeth helpu i gyflawni hyn drwy: Gwella lles meddyliol drwy gynyddu gwaith ymgysylltu â'r gymuned drwy gyfrwng mentrau megis caffis atgyweirio. Gwneud defnydd mwy effeithlon o'n bwyd drwy fentrau aiddosbarthu bwyd megis FareShare Cymru a thrwy hynny helpu i leihau problemau iechyd sy'n gysylltiedig â thlodi. Moderneiddio cerbydau casglu gwastraff i leihau allyriadau trafndiaeth niweidiol i wella ansawdd aer.

- Camau Gweithredu sy'n cyfrannu:**
- Buddsoddi mewn technoleg lân er mwyn casglu deunyddiau
 - Gwneud defnydd mwy effeithlon o'n bwyd